

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Fawrth Chwefror 6ed 2018 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Paul Weston a'r Cyng. Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Ionawr** - cynnig bod y Cofnodion yn gywir gan Edmund Rees gyda Dewi Evans yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
 - 5.1. BDO – dim ymateb i'r llythyr hyd yma.
 - 5.2. Cyflymdra traffig heibio'r ysgol – ymateb y Cyngor Sir i'r broblem dim arian i ymgymryd â'r gwaith ar gost o £48,600.00, angen trafod ymhellach neb wedi sôn am roi'r ' speed humps'.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. Meddygfa Betws y Coed – cais am gyfraniad o £100.00 yn flynyddol tuag at gynllun dosbarthu presgripsiwn i ardal Pentrefoelas. Angen gwybod faint o gleifion sy'n derbyn y gwasanaeth yma yn yr ardal.
 - 6.2. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon diolch am y cyfraniad tuag at daith y disgyblion i Gaerdydd.
 - 6.3. CBSC – y gwaith ar bont Bron Cadnant ar fin cychwyn.
 - 6.4. CGGC – Chwarae Allan – grant o £500.00 ar gael tuag at y gost.
 - 6.5. Paratoi Cyllideb – heb gynnwys lwfansau'r Cynghorwyr yn y gyllideb gan mae yn y broses drafft mae ar hun o bryd.
 - 6.6. Pwyllgor Apêl Pentrefoelas (Eisteddfod Genedlaethol) cais am gyfraniad – cynigiodd Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio a phawb yn gytûn anfon £500.00 i'r apêl leol.
 - 6.7. Cais Cynllunio Tyn Llyn – gan fod y cais yn mynd i'r apêl – angen sylwadau – dim ychwanegiad i'r sylwadau gwreiddiol.
7. **Monitro'r Gyllideb:**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Nid oedd Garffild Lewis yn bresennol.
9. **Unrhyw fater arall:**
 - 9.1. Angen sgubo'r pafin o Drem y Garn at yr ysgol.
10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Mawrth 5ed 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____
Cadeirydd

Dyddiad _____ 05.03.18 _____

